

Gwybodaeth i ymwelwyr anabl

Fel gŵyl deithiol mae'r Eisteddfod yn ymweld â gwahanol ardaloedd a chymunedau pob blwyddyn, a phob blwyddyn mae ymwelwyr yn dod atom o wahanol ardaloedd a chymunedau.

Os ydych yn anabl, gobeithio y bydd y cyngor isod yn eich helpu i gael ymweliad wrth eich bodd, ac mae croeso i chi gysylltu gyda ni cyn eich ymweliad os oes gennych unrhyw ymholiad penodol.

Mae'r Eisteddfod yn ŵyl deithiol, ac yn aml fe'i chynhelir ar gaeau amaethyddol. Rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau llwybrau gwastad o amgylch y Maes, ond rydym yn ddibynnol iawn ar y tir ei hun wrth gynllunio a pharatoi'r Maes.

Cyrraedd yr Eisteddfod

Mae parcio ar gyfer ymwelwyr anabl ar gael yn ein meysydd parcio. Cofiwch arddangos eich bathodyn glas i'r stiwardiaid wrth gyrraedd.

Sgwteri a chadeiriau olwyn i'w rhentu

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda chwmni Byw Bywyd, ac mae stondin y cwmni yn agos at y brif fynedfa bob blwyddyn. Gallwch logi cadeiriau olwyn a sgwteri yma ar gyfer eich ymweliad. Rydym yn annog ymwelwyr sy'n awyddus i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn i gysylltu â'r cwmni ymlaen llaw er mwyn sicrhau argaeledd sgwter neu gadair olwyn. Rhif cyswllt y cwmni yw 01286 830 101.

Tocynnau

Yn y Ganolfan Ymwelwyr, mae'r ffenestri yn isel, sydd yn addas i bobl mewn cadeiriau olwyn. Yma hefyd mae sistem "loop" er mwyn cynnig cymorth i bobl sydd yn gwisgo teclyn clywed, a bydd hyn yn eich helpu wrth brynu tocynnau. Cofiwch y gallwch hefyd archebu tocynnau dros y we – www.eisteddfod.cymru.

Os oes angen cymorth cynorthwydd personol arnoch, rydym yn cynnig tocynnau am ddim. Cyn rhoi tocynnau i Gynorthwyr Personol, bydd yn rhaid i ni gael un o'r mathau canlynol o dystiolaeth:

- Tudalen Flaen Lwfans Byw i'r Anabl / Taliad Annibyniaeth Personol (dim cyfradd benodol)
- Tudalen Flaen llythyr Lwfans Gweini (dim cyfradd benodol)
- Tystiolaeth o fod wedi cofrestru â nam difrifol ar y golwg (dall)
- Cerdyn ID Cydnabyddedig ar gyfer Cŵn Cymorth
- Cerdyn Mynediad CredAbility

Adeiladau'r Eisteddfod

Yn y Pafiliwn, neilltuir lle arbennig ar gyfer cadeiriau olwyn, a sedd gerllaw i dywyswyr. Gofynnir i chi archebu'r rhain ymlaen llaw, er mwyn sicrhau eich lle, a gellir gwneud hyn naill ai drwy ebostio gwyb@eisteddfod.org.uk neu drwy ffonio'r linell docynnau ar 0845 4090 800. Mae system "infra red", sydd yn galluogi pobl gyda theclyn clust i wrando ar yr hyn sydd yn mynd ymlaen ar y llwyfan. Darperir sustem 'loop' ar gyfer pobl sydd â theclyn clust yn y Babell Lân yn ogystal.

Mae croeso i gŵn tywys yn y Pafiliwn, ond gadewch i'r stiwardiaid wrth y drws wybod os ydych am ddod â'r ci i mewn i'r adeilad er mwyn iddyn nhw eich helpu i gael hyd i sedd addas gyda digon o le i'r ci wrth eich hymyl.

Cofiwch hefyd am ein gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y Pafiliwn y gellir ei ddefnyddio er mwyn dilyn y gweithgareddau. Gellir ei ddefnyddio fel teclyn 'sain-ddisgrifio'. Mae'r offer ar gael yn rhad ac am ddim o'r Ganolfan Gyfieithu o flaen y Pafiliwn, neu gofynnwch i un o staff neu wirfoddolwyr y Ganolfan Ymwelwyr am gymorth. Gwasanaeth Saesneg yn unig yw'r gwasanaeth cyfieithu.

Toiledau

Ymhob bloc o doiledau, mae un sydd wedi addasu ar gyfer bobl anabl, gyda ramp yn arwain atynt, ac yn y bloc toiledau ger y brif fynedfa ceir toiled anghenion arbennig (high dependency). Mae clo ar y toiledau hyn sydd yn

gweithio gyda goriad “RADAR”. Os byddwch angen defnyddio'r rhain a heb y goriad pwrpasol, ewch i'r ddesg wybodaeth yn y Ganolfan Ymwelwyr neu i Swyddfa'r Eisteddfod yng nghefn y Pafiliwn.

Hygyrchedd o amgylch y Maes

Mae ramp i fod i bob adeilad ar y maes. Os cewch drafferth i gael mynediad i unrhyw adeilad, rhowch wybod i swyddfa'r Eisteddfod ar unwaith. Darperir bws mini (wedi'i addasu ar gyfer pobl ag anableddau) gyda gyrrwr cymwys a thrwyddedig i fynd o amgylch y Maes trwy'r dydd. Gellir defnyddio'r bws yma i deithio o fewn y Maes yn rhad ac am ddim.

Cymorth ychwanegol

Mae stiwardiaid ym mhob un o'n hadeiladau ac ar gael i gynnig cymorth ymarferol. Maent yn hawdd i'w hadnabod, yn gwisgo siacedi gweledd uchel. Ewch atynt gydag unrhyw broblem ymarferol, a byddent yn barod i'ch helpu, neu yn trefnu i rywun arall eich cynorthwyo.

Yn ogystal mae gennym dîm o unigolion sydd yma i'ch helpu ar y Maes, ac mae'r rhain wedi'u lleoli o amgylch y Maes, ac yn arbennig yn y Ganolfan Ymwelwyr. Bydd y rhain yn gallu eich helpu a'ch cynghori am bob elfen o'ch ymweliad. Gallwch eu hadnabod yn hawdd yn eu crysau 'Yma i Helpu'.

Fe wnawn pob ymdrech o fewn rheswm i wneud ymweliad pawb i Faes yr Eisteddfod yn un mor bleserus a phosibl. Fodd bynnag, os y cewch unrhyw drafferthion yn ystod eich ymweliad â'r Maes, ewch i Swyddfa'r Eisteddfod, sydd y tu ôl i'r Pafiliwn, neu i'r Ganolfan Ymwelwyr.

Alwyn Roberts, y Dirprwy Drefnydd sy'n gyfrifol am hygyrchedd ar y Maes, a gellir cysylltu ag Alwyn yn y swyddfa, neu os na fydd yno, bydd aelod o staff yn cysylltu gydag Alwyn ar y radio. Bydd eich sylw yn derbyn ymateb o fewn dwy awr, a bydd Alwyn neu aelod arall o dîm rheoli'r Eisteddfod yn cysylltu â chi o fewn yr amser hynny. Os hoffech gysylltu gydag Alwyn ymlaen llaw, gallwch ei ebostio [yma](#).

Rhif ffôn Swyddfa'r Eisteddfod – 0845 4090 900, neu ebostiwch gwyb@eisteddfod.org.uk.

Ceir mwy o wybodaeth [yma](#).

